**Cofnodion wedi'u Cadarnhau o**
**Gyfarfod Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru**
**a gynhaliwyd yn gyhoeddus**
**Dydd Mawrth 20 Mai 2025**
Microsoft Teams / Willowford

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau:** | | |
| Ian Green (Cadeirydd) | (IG) | Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Abigail Harris | (AH) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (Yn y Lleoliad) |
| Philip Kloer | (PK) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Paul Mears | (PM) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| Nicola Prygodzicz | (NP) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (Yn y Lleoliad) |
| Carol Shillabeer | (CB) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Hayley Thomas | (HT) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| Suzanne Rankin | (SR) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (am ran o'r cyfarfod) |
| Mandy Rayani | (MR) | Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Nia Roberts | (NR) | Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru |
| Paul Worthington | (PW) | Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Susan Elsmore | (SE) | Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Shameem Nawaz | (SN) | Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| **Aelod Cyswllt:** | | |
| Stacey Taylor | (ST) | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwerth a Dirprwy Brif Gomisiynydd (Yn y Lleoliad) |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Anita Louise-Rees | (ALR) | Rheolwr Gwasanaeth, Uned Mam a Babi Ysbyty Tonna, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (am ran o'r cyfarfod) |
| Carole Bell | (CB) | Cyfarwyddwr Nyrsio ac Ansawdd, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Adrian Clarke | (AC) | Cyfarwyddwr Comisiynu ac Iechyd Meddwl Dros Dro, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Iolo Doull | (ID) | Cyfarwyddwr Meddygol, CBC GIG Cymru |
| Georgina Galletly | (GG) | Cyfarwyddwr Cynllunio a Strategaeth Gorfforaethol (Yn y Lleoliad) |
| Claire Harding | (CH) | Cyfarwyddwr Cynllunio Dros Dro, CBC GIG Cymru |

CONFIRMED

| | | |
|---|---|---|
| Victoria Legrys | (VL) | Cyfarwyddwr Rhaglen, Ailgynllunio Clinigol Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Jacqui Maunder | (JM) | Ysgrifennydd y Pwyllgor a Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Rachel Marsh | (RM) | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Angela Mutlow | (AM) | Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Llais |
| Ross Whitehead | (RW) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans ac 111, CBC GIG Cymru (Yn y Lleoliad) |
| Helen Tyler | (HT) | Pennaeth Llywodraethu a Risg, CBC GIG Cymru |

**Yn Arsylwi:**

| | | |
|---|---|---|
| Yasmin Fraser | (YF) | Aelod o'r Cyhoedd (am ran o’r cyfarfod) |

**Ymddiheuriadau:**

| | | |
|---|---|---|
| Huw George | (HG) | Prif Gomisiynydd, CBC GIG Cymru |
| Jason Killens | (JK) | Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru |
| Mel Wilkey | (MW) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol |
| Nick Wood | (NW) | Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru |

**Cofnodion:**

| | | |
|---|---|---|
| Maxine Evans | (ME) | Swyddog Llywodraethu Corfforaethol, CBC GIG Cymru |

Dechreuodd y cyfarfod am 9:30am

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| JCC25/001 | **1.1 Croeso a Chyflwyniadau**<br>Croesawodd y Cadeirydd, Ian Green (IG), yr aelodau, y mynychwyr, a’r arsylwyr i gyfarfod cyhoeddus y Cyd-bwyllgor a gwnaed cyflwyniadau.<br><br>Croesawyd Adrian Clarke (AC) i'w gyfarfod cyntaf fel Cyfarwyddwr Comisiynu Dros Dro ar gyfer Iechyd Meddwl a Grwpiau Bregus.<br><br>Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cyfarfod gael ei recordio, a chadarnhawyd y byddai'r recordiad ar gael ar wefan Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (CBCGC) yn dilyn y cyfarfod. Nodwyd bod cworwm. |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| JCC25/002 | **1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ac fe'u rhestrwyd fel yr uchod. |
| JCC25/003 | **1.3 Datganiadau o Fuddiant**<br>Ni wnaed datganiadau o fuddiant ychwanegol yn ymwneud â'r eitemau i'w trafod ar yr agenda.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd bod pob Bwrdd Iechyd â buddiant yn y mater o gymeradwyo'r Cynllun Sylfaen, ac mewn perthynas ag Eitem 3.1 mae'n rhaid i'r CBCGC weithio gyda'i holl bartneriaid a rhanddeiliaid er lles pennaf poblogaeth Cymru, a chynabyddir bod yn rhaid i holl aelodau'r Byrddau Iechyd gyflawni eu dyletswyddau ar y cyd dros boblogaeth Cymru.<br><br>Ar gyfer Eitem 4.2.3 Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR) – nodwyd bod Paul Worthington yn aelod lleyg ymgynghorol ar Banel IPFR Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.<br><br>Nododd yr aelodau nad oedd IG bellach yn Gadeirydd ar Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Salisbury. O 1 Gorffennaf 2025, ef fydd Cadeirydd newydd Bwrdd Comisiynu Integredig Swydd Amwythig. |
| JCC25/004 | **1.4 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2025 a Materion yn Codi**<br>Cyflwynwyd cofnodion o gyfarfod y Cyd-bwyllgor Comisiynu (CBC) a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2025 ac fe'u **cymeradwywyd** fel cofnod cywir o'r cyfarfod.<br><br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi. |
| JCC25/005 | **1.5 Cofnod Gweithredu**<br>**Nododd** yr Aelodau'r cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu a amlinellir ar y cofnod gweithredu a **chytunwyd** bod y camau gweithredu a nodwyd fel rhai sydd 'wedi'u cau' wedi'u cwblhau, gan nodi'r cynigion i gau nifer o eitemau gan eu bod wedi'u cynnwys ar yr agenda.<br><br>Mewn perthynas â Chamau Gweithredu 76, Gwasanaethau Rhywedd, trafodwyd yr angen i fynd at wraidd y mater, gan ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc drwy'r contract gyda GIG Lloegr. Dywedodd yr aelodau nad oedd y mater wedi'i ddatrys yn llwyr yn sesiwn Strategaeth y CBC ar 15 Ebrill 2025. Cytunwyd y dylid cadw'r cam gweithredu ar agor nes bydd |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | aelodau'r Cyd-bwyllgor wedi cynnal sesiwn benodol ar rywedd mewn sesiwn strategaeth CBC yn y dyfodol. |
| JCC25/006 | **2.1 Dysgu o Brofiad y Claf**<br>Cyflwynodd AC fideo o gyn-glaf (Jessica Hill) yn rhannu ei phrofiad personol o fod yn glaf yn Uned Mam a Babi Ysbyty Tonna. Nodwyd bod y fideo eisoes wedi'i gyflwyno i is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau'r CBC. Rhannodd Jess ei phrofiad a nododd aelodau:<br>• Bu hi'n glaf am chwe mis gan wynebu sawl her fel mam ag anableddau iechyd corfforol, ac roedd yn bwysig iddi gael y cymorth ychwanegol gan staff ac i gael bod gyda'i babi yn ystod ei hadferiad; ac<br>• Iddi wynebu heriau unigryw fel mam ag anabledd corfforol, y cyntaf i gael ei thrin ar yr Uned, gan gynnwys yr angen am offer ac addasiadau penodol.<br><br>Disgrifiodd Anita Louise-Rees y gwelliannau a'r dysg a gafwyd o brofiad y claf, gan gynnwys gweithredu llwybr cymorth i bartneriaid i ddarparu cymorth enwol i bartneriaid yn ystod cyfnod o fod yn yr ysbyty. Tynnwyd sylw hefyd at ymdrechion i fynd i'r afael ag anghenion ariannol i sicrhau bod teuluoedd yn cael mynediad at gymorth ariannol priodol yn ystod eu harhosiad ac ar ôl cael eu rhyddhau.<br><br>Dywedodd AC fod cyllid ar gael i helpu gofalwyr gyda chostau teithio ac unrhyw gymorth arall sydd ei angen. Nod yr arian cylchol oedd lleddfu rhai o'r beichiau ariannol y mae teuluoedd yn eu hwynebu.<br><br>Roedd y gwasanaeth yn archwilio dulliau i leihau gorbryder i'r cleifion sy'n cael eu derbyn i'r Uned, megis darparu llyfrynnau gyda lluniau o'r uned a galwadau ffôn i gyflwyno staff ac i drafod y broses dderbyn. Comisiynwyd taith fideo ar-lein hefyd er mwyn i gleifion allu gweld yr uned cyn cael eu derbyn a bydd ar gael ar wefan CBCGC a holl wefannau'r Bwrdd Iechyd.<br><br>Tynnodd Mandy Rayani (MR) sylw at broblem ehangach o ran ystyried anableddau corfforol ar draws yr holl wasanaethau, nid y gwasanaethau iechyd meddwl yn unig, ac awgrymodd y dylid gweithredu'r asesiad o anghenion gofalwyr fel safon ar gyfer unrhyw wasanaeth.<br><br>Dywedodd Abigail Harris (AH) fod uned newydd bwrpasol wedi'i chynnwys yn y cynllun tymor hir i gydgrynhoi'r holl wasanaethau iechyd meddwl o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA) fel ateb parhaol. Yn y cyfamser, awgrymodd AH fod croeso i aelodau ymweld â'r Uned bresennol mewn grwpiau bach. |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | **CAM GWEITHREDU:** AC i gysylltu â BIPBA i drefnu i aelodau'r Cyd-bwyllgor ymweld â'r uned mam a babi yn ysbyty Tonna mewn grwpiau bach.<br><br>Nodwyd y dysgu cadarnhaol a gafwyd o stori'r claf. Gofynnodd y Cadeirydd i AH ddiolch i Jess am ei pharodrwydd i rannu ei phrofiad gyda'r CBCGC.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi** stori'r claf. |
| JCC25/007 | **2.2 Adroddiad y Cadeirydd**<br>Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd, a nododd yr aelodau'r cyfarfodydd allweddol a fynychwyd yn ystod y cyfnod diwethaf a'r diweddariadau a roddwyd.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad. |
| JCC25/008 | **2.3 Adroddiad y Prif Gomisiynydd**<br>Cyflwynwyd adroddiad y Prif Gomisiynydd Dros Dro a nododd yr aelodau:<br>• y diweddariadau a ddarparwyd ynghylch y gwaith pontio,<br>• y Grŵp Arweinyddiaeth Comisiynu Cydweithredol (CCLG).<br>• Yr archwiliad mewnol ymgynghorol i asesu'r trefniadau a oedd wedi'u rhoi ar waith yn y CBCGC ar gyfer ymgorffori'r fframwaith llywodraethu statudol a sefydlu trefniadau llywodraethu gweithredol ers sefydlu'r CBCGC ar 1 Ebrill 2024.<br>• Statws dynodedig y Prif Gomisiynydd fel Swyddog Atebol (AO) o 1 Ebrill 2025 tan 31 Mawrth 2026 a'r cyfrifoldeb personol am briodoldeb a rheoleiddra cyllid cyhoeddus CBCGC a'r cyfrifoldebau a amlinellir yn y Memorandwm Swyddogion Atebol ar gyfer Prif Gomisiynydd y CBCGC; a'r<br>• newidiadau i'r uwch dîm arwain.<br><br>Soniodd Stacey Taylor (ST) bod yr archwiliad mewnol ymgynghorol ar lywodraethu ynghylch sefydlu fframwaith llywodraethu CBCGC yn gadarnhaol, a bod yr argymhellion a wnaed yn ymwneud â chryfhau a datblygu grwpiau cyfarfod mewnol.<br><br>Nododd yr Aelodau fod cyfradd y swyddi gwag yn 29%, a dywedodd George Galletly (GG) wrth yr aelodau bod cynllun recriwtio blaenoriaethol ar waith a dylai'r amserlen ar gyfer cyfweliadau gael ei gwblhau erbyn diwedd Gorffennaf 2025. |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | Cwestiynodd Hayley Thomas (HT) y cyfeiriad at y Grŵp Arweinyddiaeth Comisiynu Cydweithredol a'i gworwm, gan dynnu sylw at yr angen i Gyfarwyddwyr Gweithredol fynychu. Dywedodd Jacqui Maunder (JM) fod y Cylch Gorchwyl yn dweud y benodol bod yn rhaid i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol fod yn bresennol i sicrhau cworwm, a bod dirprwyon wedi bod yn mynychu cyfarfodydd hyd yma gan olygu nad oedd cworwm llawn. Cytunodd yr aelodau i sicrhau bod Cyfarwyddwyr Gweithredol yn bresennol yn y dyfodol.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad. |
| JCC25/009 | **2.4 Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans ac 111**<br>Cyflwynwyd adroddiad Comisiynu gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans a 111 a nododd aelodau'r diweddariadau a ddarparwyd.<br><br>Rhoddodd Ross Whitehead (RW) yr wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynglŷn â'r safonau perfformiad diwygiedig ar gyfer gwasanaethau ambiwlans a fydd yn mynd yn fyw ar 1 Gorffennaf 2025. Rhoddodd RW sicrwydd bod yr holl waith angenrheidiol wedi'i wneud i fodloni'r safonau hynny. Nododd yr aelodau fod y safon trosglwyddo gofal 45 munud yn cael ei yrru gan y Grŵp Cyflawni Gwelliannau Ambiwlans Cenedlaethol dan arweiniad Clinigol, a oedd yn allweddol ar gyfer lliniaru'r risg sy'n ymwneud â chomisiynu ambiwlansys ar gofrestr risg CBCGC.<br><br>Nododd yr aelodau fod CBCGC wedi cynnal pedwar gweithdy gyda chynrychiolwyr Byrddau Iechyd ynglŷn ag Ymchwiliad Arena Manceinion. Roedd y gweithdai wedi rhoi cyfle i gwrdd â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i drafod yr asesiad a ddarparwyd. Bydd craffu'n digwydd gyda'r Byrddau Iechyd ym mis Mehefin 2025, ac ochr yn ochr â hynny gofynnwyd am gyngor cyfreithiol annibynnol yn ogystal ag unigolyn annibynnol i ddarparu lefel bellach o sicrwydd.<br><br>Bu'r aelodau'n trafod y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys (NEPTS) gan gydnabod bod mwy a mwy o gymhlethdod gyda symudedd cleifion, felly roedd nifer y cleifion y gallai pob cerbyd ei gludo yn lleihau. Yn ogystal, bu cynnydd yng nghost darparwyr allanol ac roedd newidiadau i wasanaethau Byrddau Iechyd wedi arwain at rai teithiau hirach, yn ogystal â mwy o alw am drosglwyddiadau a rhyddhau. |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | Nododd yr aelodau y gofynnwyd i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gynnal astudiaeth drylwyr o berfformiad y gwasanaeth 111 i roi gwell dealltwriaeth o weledigaeth ac uchelgeisiau CBCGC ar gyfer dyfodol y gwasanaeth 111 fel rhan o gynnig gwasanaeth gofal brys Byrddau Iechyd.<br><br>Awgrymodd y Cadeirydd y byddai'n dda deall pa flociau adeiladu sydd angen eu gosod gyntaf o ran cynaliadwyedd y gwasanaeth a'r heriau cynhyrchiant ehangach yn y system. Awgrymodd y byddai trafodaeth ar sut y gallai'r CBCGC gomisiynu'r gwasanaeth yn y dyfodol yn ddefnyddiol.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Diweddariad ar y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys a'r gwasanaeth 111 i'w gyflwyno i gyfarfod y Cyd-bwyllgor a drefnwyd ar gyfer 15 Gorffennaf 2025.<br><br>Roedd Rachel Marsh (RM) yn cytuno y dylai'r Cyd-bwyllgor edrych ar y gwasanaeth mewn mwy o fanylder, a thynnodd sylw at y ffaith bod sgyrsiau parhaus trwy'r rhaglen chwe nod ynghylch datblygu strategaeth gofal brys. Awgrymodd y byddai trafodaeth ar y cyd yn fuddiol. Adleisiwyd hyn gan Phil Kloer (PK).<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Trefnu sesiwn bwrpasol i fynd at wraidd y mater gyda'r gwasanaeth 111 ar gyfer sesiwn Strategaeth y Cyd-bwyllgor yn y dyfodol.<br><br>Nododd yr aelodau fod canlyniad yr adolygiad barnwrol ar gyfer y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) wedi'i ohirio gan fod y Barnwr wedi bod yn sâl a bod disgwyl diweddariad yn ddiweddarach y mis hwn.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad. |
| JCC25/010 | **2.5 Adroddiad Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol**<br>Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu gan y Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol.<br><br>Yn absenoldeb Melanie Wilkey, cyflwynodd ST yr adroddiad gan gynnwys risgiau ac uchafbwyntiau gan y Timau Comisiynu.<br><br>Dywedodd ST wrth yr aelodau, yn dilyn y sicrwydd a roddwyd i'r Grŵp Arweinyddiaeth Comisiynu Cydweithredol, y cynigiwyd na ddylid dadgomisiynu'r gwasanaeth Syndromau Heb Enw (SWAN) ar |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | hyn o bryd ac y dylai cyllid barhau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac ar y pwynt hwnnw byddai buddsoddiad tymor hir yn cael ei ystyried fel rhan o broses flaenoriaethu 2026/27. Nodwyd bod pob Bwrdd Iechyd ond un yn cefnogi'r cynnig hwn.<br><br>Holodd HT pryd y byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei gyflwyno am y gwasanaeth cochlear a'r gwaith sy'n cael ei wneud, a chytunwyd y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rannu y tu allan i'r cyfarfod.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Diweddariad ar amserlenni'r gwasanaeth cochlear i'w roi y tu allan i'r cyfarfod.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'**r diweddariadau comisiynu arbenigol sy'n cael eu crynhoi yn yr adroddiad hwn, a<br>• **Cymeradwyo**'r cyllid rheolaidd ar gyfer gwasanaeth SWAN; a<br>• **Nodi**'r crynodeb o'r risgiau arbenigol a ddisgrifiwyd, gan gofio bod y rhain yn cael eu rheoli trwy gyfrwng y gofrestr risg sefydliadol a bod risgiau a gwasanaethau sy'n cael eu huwchgyfeirio yn cael eu hadrodd i Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau y CBC ar gyfer craffu manwl. |
| JCC25/011 | **2.6 Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed**<br>Cafwyd adroddiad Comisiynu gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed (MHLDVG).<br><br>Cyflwynodd AC yr adroddiad a nododd yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth amenedigol a oedd yn dweud bod yr adroddiad galw a chapasiti ar y defnydd o welyau a'r modelu yn y dyfodol wedi'i gwblhau ac wedi'i gyhoeddi bellach ar wefan CBCGC. Dangosodd yr adroddiad fod CBCGC yn comisiynu'r nifer iawn o welyau ar gyfer Cymru, gan gydnabod yr ystyriaeth bellach sydd angen ei roi ar y ddarpariaeth yn y dyfodol gan gynnwys buddsoddiad posibl mewn gwasanaethau cymunedol i alluogi lleihau nifer y gwelyau a phellter teithio i gleifion.<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cyflwyniad defnyddiol a gafwyd yn sesiwn ddatblygu'r CBC ar wasanaethau Iechyd Meddwl ym mis Ebrill 2025, a holodd a oedd y camau gweithredu a'r gwaith trawsnewid arfaethedig wedi'u cynnwys yn y cynlluniau gwaith presennol. Rhoddodd AC sicrwydd a chynghorodd y byddai |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | diweddariadau penodol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad i gyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor ym mis Gorffennaf 2025.<br><br>Trafododd yr aelodau ysbyty Glanrhyd, ac roedd ganddynt ddiddordeb yn yr effaith ar welyau diogelwch isel a chanolig ac i wybod ai’r bwriad oedd parhau â'r trefniadau adleoli ynteu a oedd opsiynau eraill yn cael eu hystyried, gan gydnabod bod yr amserlen ar gyfer y gwaith atgyweirio wedi codi i 18 mis. Rhoddodd AH sicrwydd i aelodau fod cofnod yn cael ei gadw ar nifer y cleifion yr effeithiwyd arnynt.<br><br>Tynnodd y Cadeirydd sylw at yr angen i'r Cyd-bwyllgor ganfod datrysiad tymor hwy a'r opsiynau a oedd yn cael eu hystyried, a fyddai'n rhoi sicrwydd i'r aelodau. Cytunwyd y byddai diweddariad yn cael ei roi yn y cyfarfod nesaf.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Diweddariad ar gynllun 18 mis Ysbyty Glanrhyd i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor ym mis Gorffennaf 2025<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi’r** adroddiad. |
| JCC25/012 | **3.1 Datblygiad Strategaeth y Pwyllgor Comisiynu ar y Cyd**<br>Clywyd cyflwyniad ar ddatblygiad y Strategaeth CBCGC, a rhoddodd George Galletly (GG) ddiweddariad ar ddatblygiad y strategaeth, gan gynnwys amcanion strategol, gwerthoedd ac amserlenni ar gyfer ymgysylltu a ffurfioli.<br><br>Nododd yr aelodau fod elfennau allweddol y strategaeth wedi'u hamlygu, ac o ddod â hwy ynghyd byddant yn sicrhau bod gan y CBCGC fframwaith gwneud penderfyniadau a fyddai’n helpu i gefnogi blaenoriaethu, rheoli risg, a chanolbwyntio buddsoddiad i fodloni anghenion y boblogaeth.<br><br>Holodd y Cadeirydd ai’r elfennau allweddol oedd y rhai y byddai’r Aelodau yn disgwyl eu gweld o fewn y strategaeth, sef y blaenoriaethau y dylid canolbwyntio arnyn nhw o safbwynt y CBCGC.<br><br>Gwnaeth yr Aelodau sawl sylw defnyddiol, gan gynnwys trafod ble byddai gwerth cyhoeddus a'r defnydd o adnoddau’n ffitio i'r strategaeth, pa flaenoriaeth fyddai'n cael ei roi i atal, a'r angen i fynegi pa wasanaethau arbenigol yr ydym am eu darparu yng Nghymru yn hytrach na pha wasanaethau fyddai’n well i’w cael y tu allan i Gymru oherwydd màs critigol a bregusrwydd gwasanaethau. |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | Cadarnhaodd GG y bydd y strategaeth yn cwmpasu'r holl wasanaethau sydd ar hyn o bryd o fewn cwmpas Rheolau Sefydlog y CBCGC, a chydnabu bwysigrwydd cael y strategaeth i gyd-fynd â rhai'r Byrddau Iechyd drwy'r broses o ddatblygu. Yn ogystal, bydd cyfranogiad iechyd y cyhoedd i gefnogi asesiad anghenion y boblogaeth yn hanfodol.<br><br>Nid oedd penderfyniad ynghylch amseriad wedi'i wneud, sef a ddylai fod yn strategaeth 5 ynteu 10 mlynedd, a cheisiwyd barn yr aelodau.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** cyflwyniad. |
| JCC25/013 | **4.1 Cynllun Sylfaen CBCGC 2025/2026 - Fframwaith Gweithredu**<br>Cyflwynwyd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y fframwaith sydd ar waith, gan fanylu ar y trefniadau gweithredu ar gyfer Cynllun Sylfaen 2025/2026 y CBCGC.<br><br>Nododd yr aelodau fod y cynllun sylfaen wedi'i gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor ar 18 Mawrth 2025.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn falch o weld arweinyddiaeth CBCGC ac arweinyddiaeth Byrddau Iechyd o fewn y cynllun gweithredu, gan sicrhau atebolrwydd wrth fwrw ymlaen â hyn.<br><br>Nodwyd bod problemau'n ymwneud â swyddi gwag o fewn y CBCGC yn berygl hanfodol i'r ddarpariaeth, ac y byddai cefnogaeth aelodau Bwrdd Iechyd i geisio rhagor o gapasiti yn gymorth pwysig wrth gyflawni'r blaenoriaethau allweddol. Nododd yr aelodau fod HG ar hyn o bryd wrthi'n trafod cefnogaeth bosibl gyda chydweithwyr, a sut y gellid gwella cydgysylltedd gwaith y rhwydweithiau clinigol gyda thimau comisiynu'r CBCGC, gan gydnabod y synergeddau o ran cynlluniau gwaith.<br><br>Awgrymodd PM y dylid bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo cyfleoedd i staff Bwrdd Iechyd dreulio amser o fewn y CBCGC i ehangu eu sgiliau a'u profiad.<br><br>Roedd MR yn falch o weld y cyfeiriad at fatrics aeddfedrwydd, yn enwedig yng nghyd-destun canolfan ragoriaeth, a holodd beth oedd dyheadau'r cynlluniau a'r cysylltiad â gwariant cyfalaf, a sut y gallai hynny effeithio ar y cyflawni cyffredinol. Ymatebodd ST fod cyfarfod wedi'i drefnu gyda Llywodraeth Cymru i drafod lle CBCGC yn hyn a gwariant cyfalaf yn ehangach. |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | Mynegodd y Cadeirydd y byddai angen blaenoriaethu pellach, a holodd pa adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r fframwaith gweithredu gyda'r swyddi gwag. Pe bai rhwystrau neu oedi, dylid dod â'r rhain yn ôl i'r CBCGC i sicrhau eu bod yn cael sylw prydlon.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi**'r fframwaith ar gyfer gweithredu Cynllun Sylfaen 2025/2026 CBCGC; a<br>• **Nodi a chefnogi**'r dull cydweithredol gyda Byrddau Iechyd i arwain a chyfrannu ar y meysydd blaenoriaeth strategol; a<br>• **Nodi** bod brys i sicrhau capasiti, neu weithio gyda'r CBCGC erbyn diwedd Ch1 i gyrraedd y cerrig milltir a nodwyd o fewn y fframwaith. |
| JCC25/014 | **4.2 Adroddiad Perfformiad Ariannol – Mis 12**<br>Cyflwynwyd yr adroddiad perfformiad ariannol a oedd yn rhoi sefyllfa ariannol mis 12 CBCGC ar gyfer blwyddyn ariannol 2024–2025. Cafwyd adroddiad ar y sefyllfa ariannol yn erbyn gwaelodlinau 2024–2025 yn dilyn cymeradwyo Cynllun Comisiynu Integredig yr hen Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a Chynllun Tymor Canolig Integredig blaenorol Y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (PGAB) gan Gyd-bwyllgorau priodol y 7 Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2024.<br><br>Caewyd y sefyllfa 12 mis terfynol ar orwariant o £6.987m, gyda chefnogaeth helaeth gan gyllid Llywodraeth Cymru a ddaeth i mewn yn eithaf hwyr yn y flwyddyn.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** sefyllfa ariannol diwedd mis. |
| JCC25/15 | **4.3 Adroddiad Perfformiad Gweithredol Cyfunol CBCGC**<br>Cyflwynwyd Adroddiad Perfformiad Gweithredol Cyfunol CBCGC.<br><br>Roedd yr adroddiad yn rhoi darlun cyfunol o berfformiad gweithredol a chyflawniad y CBC yn erbyn cynlluniau 2024/25 a fabwysiadwyd, ac roedd yn cynnwys gwybodaeth fanwl sy'n adlewyrchu cynnydd ar draws y gwasanaeth Ambiwlans a GIG 111 Cymru, Iechyd Meddwl a Grwpiau Bregus, Gwasanaethau Arbenigol, a phortffolios eraill.<br><br>Cynghorodd ST y byddai'n cymryd cryn amser i ddatblygu adroddiad perfformiad integredig ymhellach, fodd bynnag, roedd yn flaenoriaeth i'r tîm a bydd yn cael ei fonitro drwy'r Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid. |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | Tynnwyd sylw at wasanaethau sy'n cael eu huwch-gyfeirio, a nododd aelodau fod un ohonynt yn cael eu huwch-gyfeirio gan Lywodraeth Cymru. Cafwyd trafodaeth benodol am y gwasanaethau Llawfeddygaeth Blastig, Llawfeddygaeth Bariatrig a Thomograffeg Allyrru Positronau (PET). Nododd aelodau fod y mater ynglŷn â chyflenwad Antigen Pilen Prostad-Benodol (PSMA) wedi'i ddatrys. Fodd bynnag, roedd hyn wedi achosi amser aros o tua 6 wythnos yn hytrach na'r targed o 10 diwrnod. Roedd y swydd hon wedi'i hadfer ac roedd cadernid y gwasanaeth PET yn cael ei gynnal.<br><br>Nododd yr Aelodau fod trafodaethau perfformiad ffurfiol ynghylch llawfeddygaeth blastig yn cael eu cynnal gyda'r ddau Ddarparwr yng ngogledd a de Cymru i sicrhau y gall CBCGC gyd-fynd ag unrhyw gais am gyllid a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y mater ehangach, sef a ddylid trosglwyddo'r gwasanaeth hwn yn ôl i Fyrddau Iechyd oherwydd nad oedd bellach yn wasanaeth arbenigol, ei nodi fel blaenoriaeth i'w ddatrys yn 2025/26. Myfyriodd y Cadeirydd ar yr heriau o gael y cydbwysedd iawn rhwng cyflawni cyfrifoldebau comisiynydd a chefnogi'r darparwr, ac awgrymodd y byddai trafodaeth ar y cyd ar wasanaethau bregus yn fuddiol.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Sesiwn strategaeth CBC yn y dyfodol i ganolbwyntio ar ba welliannau sydd angen eu gwneud ar gyfer gwasanaethau bregus.<br><br>Dywedodd NP fod llawfeddygaeth bariatrig yn dod yn broblem gynyddol, a soniodd am y cyfleoedd y mae meddyginiaeth colli pwysau a gwaith atal yn eu cynnig, ac i edrych ar y llwybr yn ei gyfanrwydd.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Drafod** yr wybodaeth am berfformiad ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd gan Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru sydd wedi'i gynnwys yn yr atodiad; a<br>• **Nodi**'r gwaith parhaus i gysoni dangosyddion a metrigau i greu adroddiad perfformiad integredig ar gyfer CBC. |
| JCC25/16 | **5.1 Cynllun y Cyd-bwyllgor Comisiynu ar gyfer Cadw a Dirprwyo Pwerau**<br>Cyflwynwyd adroddiad i geisio cymeradwyaeth ar gyfer mabwysiadu'r Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau diwygiedig ar gyfer y materion a ddirprwywyd ymhellach gan Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (CBCGC) i'r Prif Gomisiynydd (a Swyddogion eraill fel y bo'n briodol), sydd oll angen cael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyd-bwyllgor a'u cymeradwyo gan Fyrddau Iechyd Lleol fel atodlen |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | i'w Rheolau Gweithredol eu hunain, ynghyd â'r cynllun dirprwyo ariannol a'r terfynau awdurdodi ariannol diwygiedig.<br><br>Nododd yr aelodau'r canlynol:<br>• roedd y saith Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo Rheolau Sefydlog y CBCGC, y Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn eu cyfarfodydd Bwrdd priodol ym mis Mawrth 2024;<br>• Mabwysiadwyd y dogfennau gan y CBCGC wedyn ym mis Ebrill 2024, ac fe'u cynhwyswyd fel atodlen i Reolau Sefydlog pob Bwrdd Iechyd. Cymeradwyodd y CBC fatrics Awdurdodi Ariannol Dirprwyedig Trosiannol y CBCGC ym mis Ebrill 2024 hefyd;<br>• Pan gymeradwywyd hyn, cydnabuwyd y byddai angen diweddaru'r dogfennau yn ystod y cyfnod pontio i adlewyrchu'r datblygiadau sy'n ymwneud â materion dirprwyedig i'r Cyd-bwyllgor, y Prif Gomisiynydd, y Cyfarwyddwyr, a'r is-bwyllgorau newydd wrth iddynt gael eu sefydlu.<br>•<br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi** datblygiad fframwaith llywodraethu'r CBCGC, fel elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Bwrdd Iechyd; a<br>• **Trafod a Chymeradwyo** mabwysiadu'r Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau diwygiedig ar gyfer y materion a ddirprwywyd ymhellach gan y CBCGC i'r Prif Gomisiynydd (a Swyddogion eraill fel y bo'n briodol), sydd oll angen cael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyd-bwyllgor a'u cymeradwyo gan Fyrddau Iechyd Lleol fel atodlen i'w Rheolau Sefydlog eu hunain; a<br>• **Trafod a Chymeradwyo**'r dirprwyaethau ariannol a amlinellir yn y matrics awdurdodi ariannol wedi'i ddiweddaru; a<br>• **Nodi** y bydd pob Cyfarwyddwr yn cael llythyr sy'n amlinellu eu cyfrifoldebau fel deiliad cyllideb, a byddant yn cael hyfforddiant priodol ar reoli ariannol; a<br>• **Nodi** y bydd angen i'r matrics awdurdodi ariannol gael ei gymeradwyo gan y CBCGC a'i gymeradwyo gan y 7 X Bwrdd Iechyd; a<br>• **Nodi**'r Canllawiau Ymdrin â Buddiannau a ddatblygwyd i gefnogi aelodau'r Cyd-bwyllgor a swyddogion CBCGC i wneud eu gwaith yn effeithiol. |
| JCC25/17 | **5.2 Polisi Panel Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR)**<br>Cyflwynwyd adroddiad a oedd yn cyflwyno canlyniadau'r broses i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn adolygu Polisi Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol Cymru Gyfan (IPFR) ac i geisio cymeradwyaeth ar newidiadau i'r polisi. |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | Tynnodd Iolo Doull (ID) sylw at newidiadau i feini prawf y polisi, gan gynnwys ei Gylch Gorchwyl a sefydlwyd yn sgil adolygiad barnwrol llwyddiannus a'r argymhellion a ddilynodd. Nod y diwygiadau oedd egluro'r geiriad a sicrhau cysondeb ar draws Cymru. Roedd hyn yn cynnwys arddangos budd clinigol sylweddol o'i gymharu â thriniaeth gonfensiynol, a gwerth am arian.<br><br>Trafododd yr Aelodau'r angen i wybod mwy am benderfyniadau Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol ac awgrymwyd y dylid cyflwyno adroddiad chwe mis ar benderfyniadau a gwariant i'r Cyd-bwyllgor.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Adroddiad ar benderfyniadau panel Ceisiadau Cyllido Cleifion unigol CBCGC i'w dwyn gerbron y Cyd-bwyllgor / Is-bwyllgor Ansawdd Diogelwch a Chanlyniadau bob chwe mis.<br><br>Soniodd y Cadeirydd bod angen eglurder ar sut roedd panel Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol CBCGC yn gweithredu o ran yr arfer cyfredol, ac am sgwrs ehangach ar sut y gellid datblygu hynny, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r Byrddau Iechyd unigol.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Cynnwys proses y panel Ceisiadau Cyllido Cleifion unigol yng ngweithdy strategaeth y Cyd-bwyllgor yn y dyfodol.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad; a<br>• **Cymeradwyo** polisi wedi'i ddiweddaru ar Geisiadau Cyllido Cleifion Unigol Cymru Gyfan; a<br>• **Nodi** unwaith y bydd y Cyd-bwyllgor wedi cymeradwyo'r polisi, y bydd yn cael ei gyflwyno i'r 7 x Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu'n derfynol o 1 Gorffennaf 2025 ymlaen. |
| JCC25/018 | **5.3 Plasma wedi'i Adfer o Roddion Gwaed Cyflawn ar gyfer Meddyginiaethau**<br>Cyflwynwyd adroddiad a oedd yn ceisio cefnogaeth ar gyfer Gwasanaeth Gwaed Cymru (WBS) Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre i ddechrau cyflenwi plasma a adferwyd o roddion gwaed cyflawn (plasma wedi'i adfer) ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion Imiwnoglobwlin ac Albwmin at ddefnydd clinigol yng Nghymru o dan delerau contract ledled y DU gydag Octapharma AG. |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | Croesawyd Matthew Bunce (MB) i'r cyfarfod gan IG. Cymerwyd bod yr adroddiad wedi'i ddarllen a gwahoddodd MB gwestiynau.<br><br>Nododd yr Aelodau fod Gwasanaeth Gwaed Cymru'n bwriadu defnyddio'r arbedion a gânt o gontract Octapharma ledled y DU, o'i gymharu â chontractau cyfatebol GIG Cymru a geir yn fasnachol, i dalu costau ychwanegol profi, prosesu, warws a logisteg plasma wedi'i adfer, yn ogystal ag incwm a gollwyd o gyflenwi plasma i'r diwydiant diagnostig. Unwaith y digolledir y gost, bydd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn dechrau rhannu'r arbedion gyda chomisiynwyr Byrddau Iechyd.<br><br>Nododd yr aelodau nad oedd unrhyw oblygiadau ariannol i Fyrddau Iechyd, a dylai'r cynnig ddarparu budd ariannol yn y dyfodol, ac nad oedd unrhyw risgiau newydd i gleifion oherwydd y newidiadau a gynigiwyd.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Roi cymeradwyaeth i** Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre / Gwasanaeth Gwaed Cymru (WBS):<br>- ddechrau cyflenwi plasma wedi'i adfer o roddion gwaed cyflawn ac i gynhyrchu cynhyrchion Imiwnoglobwlin ac Albwmin at ddefnydd clinigol yng Nghymru o dan delerau contract ledled y DU gydag Octapharma AG; a<br>- defnyddio'r arbedion a gânt o gontract Octapharma ledled y DU, o'i gymharu â chontractau cyfatebol GIG Cymru a geir o ffynonellau masnachol, i dalu'r costau ychwanegol a'r incwm a gollwyd. |
| JCC25/019 | **5.4 Gwella Llif y Cleifion, Goruchwyliaeth a Dychweliad mewn Ysbytai Iechyd Meddwl**<br>Cyflwynwyd adroddiad a oedd yn argymell camau gweithredu i leihau costau CBCGC mewn Iechyd Meddwl, Anawsterau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed, i wella profiad cleifion ac i leihau'r nifer o swyddi gwag mewn gwasanaethau a gomisiynwyd.<br><br>Cyflwynodd AC yr adroddiad, gan ddweud bod hyn wedi'i drafod yn sesiwn Strategaeth y Cyd-bwyllgor Comisiynu ym mis Mai 2025, ac yr oedd awydd bryd hynny i leihau hyd arhosiad y cyfnod hysbysu ar gyfer Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal o 3 mis i 1 mis, ac i ystyried ymestyn y cwmpas i gynnwys gwasanaethau eraill a gomisiynwyd gan CBCGC.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad; a |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | • **Cymeradwyo** lleihau amserlen Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal o 3 mis i 1 mis ac i ehangu'r cwmpas i gynnwys gwasanaethau Iechyd Meddwl/Anghenion Dysgu cleifion mewnol eraill a gomisiynwyd gan y Cyd-bwyllgor Comisiynu. |
| JCC25/020 | **5.5 Cofrestr Risg y Cyd-bwyllgor Comisiynu – Mawrth 2025**<br>Cyflwynwyd cofrestr risg CBCGC a nododd aelodau:<br>• bod cyfanswm o 13 risg ar 31 Mawrth 2025, sy'n cynnwys 12 risg gomisiynu ac 1 risg gorfforaethol,<br>• Mae un risg newydd wedi'i ychwanegu mewn perthynas â Dyraniadau Aortig Math A,<br>• Roedd un risg wedi'i llacio mewn perthynas â Diffyg Gwelyau Gofal Dwys Pediatrig<br>• ac roedd un risg wedi'i gau mewn perthynas â Digolledu Ariannol 2024–2025 ac y bydd risg newydd yn cael ei ychwanegu ym mis Ebrill 2025 ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.<br><br>Nododd yr aelodau bod sawl gweithgaredd wedi digwydd ym mis Ebrill 2025 a allai alluogi'r CBCGC i adolygu ac addasu'r graddfeydd risg a'r cynlluniau lliniaru ar gyfer rhai o'r risgiau.<br><br>Nododd yr aelodau y bydd datganiad derbynioldeb risg yn cael ei ystyried yn Chwarter 3 i gyd-fynd â datblygiad Strategaeth CBCGC.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad; a<br>• **Cymeradwyo** cofrestr risg y Cyd-bwyllgor Comisiynu ar 31 Mawrth 2025, |
| JCC25/021 | **5.6 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol**<br>Cyflwynwyd yr adroddiad Llywodraethu Corfforaethol.<br><br>Nododd yr Aelodau y byddai'r adroddiad atebolrwydd drafft yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) BIPCTM ar 22 Mai 2025 fel rhan o'u Cyfrifon Drafft ac Adroddiad Blynyddol, a byddai'r dogfennau terfynol yn cael eu cyflwyno i gyfarfod ARAC ar 25 Mehefin 2025 i'w hargymell ar gyfer Cymeradwyaeth y Bwrdd ar 26 Mehefin 2025 cyn cael ei gyflwyno i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru.<br><br>Nododd a thrafododd yr Aelodau'r amserlen newydd ar gyfer cyhoeddi papurau a amlinellir yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru Llywodraeth Cymru, (WHC/2025/007) - Diwygiadau i Reolau Sefydlog Enghreifftiol ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Statudol, a'r cynnig i fabwysiadu a chadw at yr un amserlenni diwygiedig ar gyfer Byrddau |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | Iechyd, sef 5 diwrnod clir cyn cyfarfod ffurfiol y Bwrdd yn hytrach na 7 diwrnod calendr.<br><br>Cytunodd y Cadeirydd ei bod yn synhwyrol i ddilyn y Rheolau Sefydlog a sefydlwyd ar gyfer Byrddau Iechyd, ond pwysleisiodd mai gorau po gyntaf yw hi o ran cyhoeddi adroddiadau wrth ystyried y nifer sylweddol o adroddiadau a gwybodaeth i'w darllen cyn cyfarfodydd.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad; a<br>• **Cymeradwyo'r** adroddiad Atebolrwydd drafft 2024-2025 i'w gyflwyno i Bwyllgor Archwilio a Risg CTMUHB (ARAC) ar 22 Mai 2025 fel rhan o Gyfrifon Drafft ac Adroddiad Blynyddol BIPCTM; a<br>• **Cymeradwyo** bod y CBCGC yn cadw at yr amserlen "5 diwrnod clir" newydd ar gyfer cyhoeddi papurau ffurfiol y Cyd-bwyllgor er mwyn cyd-fynd â'r model newydd ar gyfer Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig, a **nodi** y bydd hyn yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol pan fyddwn yn derbyn Rheolau Sefydlog model newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y CBC; a<br>• **Cymeradwyo** Cynllun Blynyddol Busnes y Pwyllgor ar gyfer 2025-2026; a<br>• **Nodi** mai dim ond unwaith y cyfarfu is-bwyllgorau newydd y Cyd-bwyllgor yn ystod 2024–2025, ac y cyflwynwyd adroddiadau sicrwydd i'r CBC yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2025, ac felly na fydd angen adroddiadau blynyddol is-bwyllgorau ar gyfer 2024–2025, ac yn hytrach y dylid eu cyflwyno ar gyfer 2025-2026 ar ôl blwyddyn lawn o gyfarfodydd; a<br>• **Nodi** bod CBCGC wedi bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Iechyd yn 2024–2025 i roi sicrwydd ar waith y CBCGC,<br>• **Nodi** bod y manylion ar Gofrestr Buddiannau CBCGC wedi'u cynnwys yn adroddiad Atebolrwydd 2024–2025 a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan y CBC ym mis Mehefin 2025; a<br>• **Cymeradwyo**'r ymatebion i lythyr ymholiadau Archwilio Cymru yn barod i'w cyflwyno i Bwyllgor Archwilio a Risg BIPCTM ar 22 Mai 2025 am sicrwydd, ac i Archwilio Cymru; a<br>• **Nodi** y bydd canlyniadau arolwg effeithiolrwydd Pwyllgor Blynyddol CBCGC yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod ar 15 Gorffennaf 2025. |
| JCC25/022 | **6.1 System Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw Electronig Blueteq**<br>Cyflwynwyd adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am estyniad y contract caffael ar gyfer system cymeradwyaeth ymlaen |



CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | llaw electronig Blueteq® i sicrhau parhad busnes ar gyfer prynu Cyffuriau Cost Uchel (HCD) ar gyfer GIG Cymru.<br><br>Rhoddodd ID ddisgrifiad o System Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw Electronig Blueteq ar gyfer cyffuriau cost uchel, gan egluro ei ddiben wrth reoli cyffuriau cost uchel a sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol. Nododd yr aelodau fod disgwyl i'r drwydded Blueteq gael ei hadnewyddu ym mis Ebrill 2025 ac roedd angen ymestyn hyn ar gyfer 2025/26 i sicrhau parhad busnes a chydymffurfiaeth â chytundebau mynediad a reolir.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad. |
| JCC25/23 | **6.2 Adroddiadau cryno gan y Cyd-is-bwyllgorau**<br>Cyflwynwyd adroddiadau cryno gan y Cyd-is-bwyllgorau canlynol:<br><br>**6.2.1 Adroddiad Cryno'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (QSO)**<br>Cyflwynwyd yr adroddiad cryno o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2025. Tynnodd MR sylw at bwysigrwydd canolbwyntio adroddiadau ar ansawdd a chanlyniadau yn y dyfodol, ac ar y straeon a rannwyd gan gleifion yn ystod y cyfarfod. Mynegodd hefyd pa mor braf oedd gweld nifer o'r gweithredoedd y cytunwyd arnynt yn gwneud cynnydd da.<br><br>Cyfeiriwyd at y pwynt tegwch hefyd, a sut mae hynny'n treiddio i brofiad bron pob claf sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn oherwydd eu bod yn aml yn cael eu canoli oherwydd eu natur arbenigol, a bydd y sylw ar hynny'n parhau trwy'r is-bwyllgor.<br><br>**6.2.2 Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid (PPF)**<br>Cyflwynwyd yr adroddiad cryno o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2025. Dywedodd PW mai ffocws allweddol yr is-bwyllgor yw cadw trosolwg o'r risgiau a darparu sicrwydd o flaen pwyllgor CBC. Bydd hwn yn ddarn hanfodol o waith i'r is-bwyllgor.<br><br>**6.2.3 Panel Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR)**<br>Cyflwynwyd adroddiad cryno'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2025. Awgrymodd MR y dylai adroddiadau IPFR gael eu cyflwyno trwy'r is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau i'w trafod cyn cyfarfodydd pwyllgor CBC. Atebodd y Cadeirydd trwy ddweud y byddai amser i ystyried y cyfrifoldebau dirprwyedig o fewn yr is-bwyllgorau yn ddefnyddiol. |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | Holodd y Cadeirydd a hysbysebwyd y lleoedd gwag i aelodau lleyg ar banel IPFR, gan ddweud bod angen symud ymlaen â hyn.<br><br>**6.2.4 Rhwydwaith Arennau Cymru**<br>Cyflwynwyd yr adroddiad cryno o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2025. Nododd yr Aelodau fod sgyrsiau wedi'u cael gydag Ian Phillips, Cadeirydd Rhwydwaith Arennau Cymru ynghylch yr adolygiad llywodraethu a oedd yn dod i ben ar hyn o bryd ac a fydd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor ym mis Gorffennaf 2025.<br><br>Trafododd yr aelodau pa sicrwydd yr oedd y Cyd-bwyllgor yn ei ofyn gan is-bwyllgorau a grwpiau, ac awgrymwyd y dylid cynnal adolygiad.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Cynnal adolygiad o'r sicrwydd y mae ar y Cyd-bwyllgor ei angen gan y grwpiau etifeddol, yr is-bwyllgorau, panel IPFR, a Rhwydwaith Arennau Cymru.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiadau cryno. |
| JCC25/24 | **7.1 Unrhyw Fusnes Arall**<br>Nid oedd unrhyw faterion busnes eraill i'w trafod. |
| JCC25/25 | **7.2 Adolygiad o'r Cyfarfod**<br>Gofynnodd IG i'r aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau ar y cyfarfod. Cafwyd y sylwadau canlynol:<br>• Mae angen i adroddiadau ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn sy'n ofynnol gan y Cyd-bwyllgor; a<br>• Nid oedd pob mater a gyflwynwyd i'r Cyd-bwyllgor yn cael ei gyflwyno trwy'r is-bwyllgorau cyn cyfarfod y Cyd-bwyllgor; a<br>• Mae angen i adroddiadau egluro ym mha gyfarfodydd y trafodwyd y materion ac y craffwyd arnynt ar ran y CBC; a<br>• Ni chafwyd amser i drafod nifer sylweddol o risgiau coch, er eu bod wedi'u nodi yn yr adroddiadau.<br><br>Cytunwyd y dylid rhoi hyfforddiant ysgrifennu adroddiadau i awduron yr adroddiadau ac y dylid adolygu strwythur agenda'r cyfarfod i ganolbwyntio ar broffil risg CBCGC. |
| JCC25/26 | **7.3 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**<br>Roedd y cyfarfod arferol nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 15 Gorffennaf 2025 a Sesiwn Strategaeth CBC ar 17 Mehefin 2025. |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | |

Daeth y cyfarfod i ben am 12:41.

**Llofnod y Cadeirydd: ................................**

**Dyddiad:............................................................**

CONFIRMED